Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Paul Matthews
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fynwy
PO Box 106
Caldicot, NP26 9AN

10 Awst 2015

Annwyl Mr Matthews

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'n glir bod eich ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu'n glir ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Rwy'n arbennig o falch bod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a gynigiais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb, ac mae'ch holl ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu wedi'u dadansoddi bellach fel ymatebion 'derbyniol'. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu, ac rwyf hefyd yn croesawu'ch ymagwedd ragweithiol at weithio gyda darparwyr.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith eich bod wedi disgrifio'ch ymagwedd at

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

eich holl ddarpariaeth gofal fel ‘yr hyn sy’n cyfrif i’r person’ (Angen Gweithredu 6.2).

Gan hynny, rwy’n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â’m Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni’r newid angenrheidiol. Serch hynny, byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chloriannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi’i atodi o’r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i’m cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae’n ofynnol imi gadw cofrestr o’r ymatebion i’m Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy’n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â’r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i’n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy’n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae’r cyrff unigol sy’n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Dwy ddim yn bwriadu gofyn am ddiweddariad manwl am yr holl gamau sydd gennych ar y gweill, oherwydd lefel y sicrwydd a’r ymrwymiad rydych chi wedi’u dangos wrth sicrhau’r canlyniadau hyn. Gan hynny, rwy’n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau hyn wedi’u cyflawni’n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal (bod eich camau chi wedi’u cwblhau). Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a’r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â’r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir Mynwy

Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan ei fod wedi chwilio am sicrwydd, ac wedi casglu tystiolaeth, gan ei ddarparwyr cartrefi preswyl a nyrsio eu bod ar hyn o bryd yn cydymffurfio, neu yn fodlon cydymffurfio â'r Anghenion Gweithredu sydd yn yr Adroddiad ar fy Adolygiad i, 'Lle i'w Alw'n Gartref?'. Rwy'n croesawu'r dull rhagweithiol hwn o weithio gyda darparwyr i sicrhau bod y deilliannau i bobl hŷn a amlinellir yn fy adroddiad yn cael eu cyflawni.

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir

Mae ymateb yr Awdurdod lleol i'r Angen Gweithredu yma yn cynnwys nifer o ymrwymiadau cadarnhaol sydd â'r potensial i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu sicrhau eu hawliau a sicrhau bod eu pryderon yn cael eu hateb trwy ddefnyddio eiriolaeth annibynnol, mewn sefyllfaoedd lle maen nhw'n hyglwyf o bosibl.

Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnwys manylion ynghylch darpariaeth eiriolaeth yn eu llenyddiaeth, mae'r Awdurdod Lleol yn datgan bod yna rai sydd angen nodi hyn yn gliriach. Os bwriedir i bobl hŷn allu

cael mynediad i eiriolaeth yn y sefyllfaoedd a amlinellir yn yr Angen Gweithredu, yna mae'n hanfodol eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau, ac yn alluog ac yn gyfforddus i gael mynediad i'r gwasanaethau hynny. Rwy'n falch felly o nodi bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddefnyddio sgyrsiau â phreswylwyr, trwy'r swyddogion monitro yn ystod eu hymweliadau, i ddeall yr ymwybyddiaeth bod eiriolaeth ar gael.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol, sef nad oedd yna ymrwymiad penodol i ddarparu eiriolaeth yn y sefyllfaoedd a amlinellwyd yn yr Angen Gweithredu, a'i bod yn ymddangos mai dim ond mewn sefyllfaoedd o argyfwng y byddai eiriolaeth yn fwyaf tebygol o gael ei chynnig. Mae'n dda gweld felly bod ymateb yr Awdurdod Lleol yn datgan bod eiriolaeth ar gael pan fo materion diogelu yn codi, yn ystod prosesau pryderon cynyddol a'i fod hefyd yn dyfynnu amrediad o sefyllfaoedd ychwanegol lle mae pobl hŷn wedi defnyddio eiriolaeth. Mae'r ymateb yn amlinellu ei fod wrthi ar hyn o bryd yn egluro'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â threfnu eiriolaeth pan fo preswylydd yn ymadael â'r ysbyty. Rhaid imi nodi yma fy mod yn llwyr ddisgwyl i eiriolaeth annibynnol gael ei chynnig pan fo ar unigolyn angen cefnogaeth i ymadael â'r ysbyty naill ai gan yr Awdurdod Lleol neu gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn trafodaethau sydd yn yr arfaeth yn y Fforwm Darparwyr Cartrefi Gofal.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn datgan y bydd contractau darparwyr newydd i'w defnyddio o Hydref 2015 ymlaen yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth â'r Angen Gweithredu. Mae gan hyn y potensial y bydd gan bobl hŷn fynediad, o'r dyddiad hwnnw ymlaen, i eiriolaeth annibynnol mewn sefyllfaoedd lle y gallen nhw fod yn hyglwyf gan dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol i fynegi eu barn a sicrhau bod eu pryderon yn cael eu hateb.

Mae'r ymateb yn cynnwys dyddiad ar gyfer cyflwyno contractau darparwyr newydd ac mae hefyd yn cynnwys unigolyn atebol a fydd yn gyfrifol am gwblhau'r camau yma. Dylai'r dull yma alluogi'r Awdurdod Lleol i fonitro'r newidiadau a wneir yn y ddarpariaeth ac yn ansawdd y gwasanaethau.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu yma yn darparu esboniad clir o sut y mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth rhagweithiol ac integredig o ofal amlddisgyblaeth ac ail-alluogi. Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod y timau rheng flaen 'START' (asesiadau byrdymor ac ail-alluogi) yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion a nyrsys ardal fel bod modd i bobl hŷn gael mynediad i'r gweithiwr proffesiynol cywir heb dderbyniad diangen i'r ysbyty.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn datgan bod darparwyr cartrefi gofal wedi cadarnhau bod y gwasanaeth wedi bod yn fuddiol i breswylwyr, a bod yr Awdurdod Lleol yn ymrwymo i adolygu ei berfformiad a'i welliannau yn barhaus trwy Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth. Mae gan y gwasanaeth yma y potensial i ddarparu'r gefnogaeth lawn y mae ar bobl hŷn ei hangen yn dilyn cyfnod o salwch, i'w galluogi i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf. Er hynny, fe ellid bod wedi cryfhau'r ymateb trwy ddangos a oedd yna unrhyw feysydd i'w gwella ar hyn o bryd yn y gwasanaeth.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn datgan bod y trefniadau hyfforddi dementia priodol eisoes yn bodoli, a bod rhaglen fewnol ar Faterion Gofal Dementia wedi ei rhoi ar waith hefyd a bod un cartref yn enwedig wedi buddsoddi'n drwm mewn hyfforddiant Materion Dementia. Felly, rwy'n croesawu'r datganiad cadarnhaol sy'n dangos bod yr Awdurdod Lleol wedi rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant dementia a'i fod yn cael ei ddarparu yn unol â'r Angen Gweithredu. Dylai hyn sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia.

Mae'r ymateb yn datgan eu bod, trwy eu prosesau sicrwydd eu hunain, wedi nodi nad ydy effeithlonrwydd hyfforddiant dementia bob amser wedi'i dilysu trwy oruchwyliaeth neu weithdrefnau un i un mewn cartrefi gofal. Mae'n dda gweld bod yna gynlluniau gweithredu bellach ar waith i gywiro hyn ac rwy'n falch o weld yr ymwybyddiaeth onest yma o ble nad ydy'r broses asesu perfformiad efallai wedi'i defnyddio'n llawn i sicrhau bod hyfforddiant dementia wedi bod yn effeithiol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu monitro'r gydymffurfiaeth â'r Angen Gweithredu yma trwy ymweliadau monitro a hunanasesiadau cartrefi gofal ac rwy'n croesawu'r ffaith y bydd effaith gadarnhaol i breswylwyr o ganlyniad i'r hyfforddiant yma yn ffurfio rhan o'r monitro yma. Fe ddylai hyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y dyfodol yn ansawdd hyfforddiant dementia.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn disgrifio'n glir bod gwrando ar yr unigolyn a chyflawni deilliannau ystyrlon yn nodwedd ganolog o'i holl ddarpariaeth gofal a chymorth. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi disgrifio'i ymagwedd

at y cyfan o'i ddarpariaeth gofal fel 'yr hyn sy'n cyfrif i'r person', a'i fod yn gwbl ymrwymedig i ddefnyddio adborth y preswylwyr i wella gwasanaethau.

Mae'r ymateb yma yn cynnwys manylion am nifer o gamau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu cymryd i wella sut mae'n gwrando ar brofiadau pobl hŷn i sbarduno gwelliannau. Er enghraifft, mae'n datblygu fframwaith sicrwydd ansawdd newydd ac mae siarad â defnyddwyr gwasanaethau hŷn er mwyn deall ansawdd gwasanaethau o'u persbectif nhw yn nodwedd sylfaenol arno.

Er bod hyn i'w groesawu, rhaid imi nodi bod hyn yn ymddangos yn ddull ffurfiol o wrando ar leisiau pobl hŷn ac na ddylid anwybyddu gwerth cyfathrebu a chysylltiadau anffurfiol er mwyn deall yn iawn ansawdd bywyd beunyddiol. Er hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod dull arloesol o gasglu adborth mewn amser go iawn gan bobl hŷn wedi'i gyflwyno a hynny trwy ddefnyddio 'Ap Adborth Proffesiynol'. Mae'r ymateb yn datgan bod hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i weithredu'n fwy cyflym a rhagweithiol pan fo gwrando ar bobl hŷn yn dangos bod ansawdd yn dirywio.

Mae'r ymateb yn disgrifio sut mae rhai darparwyr wedi nodi'r angen i gynyddu eu hymdrechion yn y maes hwn, ac y bydd yr Awdurdod yn defnyddio hunanasesiadau i gasglu tystiolaeth bod trafodaethau gyda phreswylwyr yn arwain mewn gwirionedd at welliannau mewn gwasanaethau. Rwy'n croesawu'r gydnabyddiaeth yma o ddiffygion gan rai darparwyr a'r ymrwymiad i wella. Os na fydd y darparwyr hyn yn cyflawni gwelliannau, mae yna risg na fydd problemau'n cael sylw cyn iddyn nhw fynd yn sylweddol, creu effaith a myn yn ddrud i'w datrys ac y bydd cyfleoedd i wneud newidiadau bach a all wneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd bywyd yn cael eu colli. Fodd bynnag, fe fyddai'r ymateb wedi bod yn gryfach pe bai wedi cynnwys cynllun gwella ac amserlen bendant yn dweud erbyn pa bryd y gallaf ddisgwyl gweld gwell deilliannau o'r dull hwn o weithredu.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.